# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R CABINET DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Llun, 14 Mawrth 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet);

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 8.45 yb - 9.00 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25AIN IONAWR, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 yn gofnod cywir.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Cynwyl Elfed - Llanpumsaint**<br>(1 x lle gwag – 1 enwebiad) | **Mr. G. T. Page** |
| **Halfway**<br>(2 x lle gwag – 2 enwebiad) | **Mrs. T. Devichand**<br>**Mr. R. D. Rees** |

| Ysgol Uwchradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Emlyn**<br>(3 x lle gwag – 1 enwebiad) | **Mrs. C. Davies** |
| **QEHS**<br>(1 x lle gwag – 1 enwebiad) | **Mrs. G. Parker** |

**AELOD O’R CABINET** **DYDDIAD**